# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn

# 10/11/2009

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Diwydiant Gweithgynhyrchu

**C11 David Melding:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y diwydiant gweithgynhyrchu yng Nghymru? OAQ(3)2357(FM)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Mae'r sector gweithgynhyrchu yn parhau i wynebu heriau yng Nghymru fel ym mhob man arall. Yr ydym yn parhau i gynnig cymhellion i gwmnïau gweithgynhyrchu fuddsoddi ac ail ddechrau yng Nghymru ac yr ydym yn parhau i gynnig cefnogaeth yn y tymor byr i gwmnïau sydd heb lawer o archebion yn ystod y dirwasgiad er mwyn iddynt allu uwchraddio sgiliau'u gweithlu yn ystod y cyfnodau tawel.

### Diweithdra ym Mlaenau Gwent

**C12 Trish Law:** Pa gamau mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i leihau diweithdra ym Mlaenau Gwent? OAQ(3)2363(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae ein camau gweithredu i greu mwy o gyfleoedd o ran gwaith ym Mlaenau Gwent, a hynny ar draws y sectorau, yn cynnwys buddsoddi £40 miliwn er mwyn adfer safle'r hen waith tun, sefydlu canolfan hyfforddi Sgiliau Gwyrdd ym Mharc Busnes Tredegar a'r gwariant o £1.2 miliwn dan y cynllun ProAct er mwyn diogelu 496 o swyddi.

### Addysg y Blynyddoedd Cynnar

**C13 Irene James:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am addysg y blynyddoedd cynnar yng Nghymru? OAQ(3)2378(FM)

**Y Prif Weinidog:** Caiff addysg y blynyddoedd cynnar ei ddarparu drwy'r cyfnod sylfaen ar gyfer plant tair i saith oed. Mae'r cyfnod sylfaen ar flaen y gad yn y maes ac mae wedi derbyn cefnogaeth frwd iawn gan bob un sy'n gysylltiedig â'r gwaith, yn enwedig plant. Yr ydym wedi dangos ein hymrwymiad hirdymor drwy fuddsoddi hyd at £170 miliwn ar gyfer y tair blynedd gyntaf ers cyflwyno'r cyfnod sylfaen.

### Cymorth i Fusnesau

**C14 Gareth Jones:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cymorth sydd ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i fusnesau? OAQ(3)2372(FM)

**Y Prif Weinidog**: Yr ydym yn darparu cymorth hyblyg sydd wedi'i deilwra'n arbennig ar gyfer busnesau Cymru er mwyn eu helpu i ehangu ac wynebu'r hinsawdd economaidd sydd ohoni. JEREMIE a ProAct yw'r ddau gynllun cymorth sydd gennym ar waith. Hyd yn hyn, cynigiwyd ProAct i 139 o fusnesau er mwyn cadw 7,149 o weithwyr.

## Dechrau'n Deg

**C15 Michael German:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y rhaglen Dechrau'n Deg yn Nwyrain De Cymru? OAQ(3)2364(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae dros 3,500 o blant a'u teuluoedd yn ardaloedd mwyaf difreintiedig de-ddwyrain Cymru yn elwa ar y rhaglen Dechrau'n Deg. Mae'r rhaglen yn cynnig cymorth dwys iawn gan gynnwys gofal plant o safon uchel ar gyfer plant sy'n ddwy oed, mwy o ymweliadau iechyd, rhaglenni rhianta a chyrsiau chwarae ac iaith.